

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Bydd angen Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau ar gyfer pob penderfyniad, adolygiad polisi neu weithredu polisi.

- Adran 1 - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Adran 2 – Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Adran 3 - Cynllun Corfforaethol
- Adran 4 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Adran 5 - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adran 6 – Hawliau Plant “Y Ffordd Gywir”
- Adran 7 - Diogelwch Cymunedol
- Adran 8 y Lluoedd Arfog
- Adran 9 - Data
- Adran 10 - Ymgynghoriadau - Athrawiaeth Ymgynghori Statudol o Ddisgwyliad Cyfreithlon ac Egwyddorion Gunning
- Adran 11 – Monitro
- Adran 12 - Penderfyniad ar y cynnig

Swyddog Arweiniol	Pennaeth Gwasanaeth	Maes Gwasanaeth ac Adran	Dyddiad
Jon Mower	Joanne Watts	Adnoddau a Chynllunio Addysg	27.6.26

Beth yw'r cynnig sydd angen ei asesu?

Amlinellwch y cynnig yn gryno gan nodi pa newid neu benderfyniad sydd i'w wneud, a darparwch hefyd unrhyw ddogfennaeth y gellir ei defnyddio i gefnogi hyn.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio lleihau capasiti Cymuned Ddysgu Abertyleri – Campysau Cynradd yng ngoleuni lleoedd gwag a grëwyd yn yr ysgol o ganlyniad i niferoedd is o ddisgyblion sy'n mynd i mewn i'r cyfnod Cynradd. Mae'r tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn dymuno gostwng y niferoedd o 980 o leoedd yn y Campysau Cynradd i 770 o leoedd gan olygu bod 210 o leoedd yn cael eu dileu.

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n darparu ar gyfer disgyblion (3-16 oed) dros 4 campws, ac mae'r ysgol yn gweithredu ar y safleoedd canlynol

- Campws Uwchradd Stryd Alma
- Campws Heol Roseheyworth
- Campws y Chwe Chloch a hefyd
- Campws Cynradd Stryd Tyleri

Mae'r Ysgol Pob Oed hefyd yn darparu canolfan adnoddau uwchradd yng nghampysau Stryd Alma a'r Chwe Chloch. Mae ganddi hefyd ddarpariaeth gofal plant allanol yn Heol Roseheyworth.

DS gweler y ddogfen ymgynghori ar-lein

Adran 1

Amlinellwch sut y bydd y cynnig yn effeithio ar unrhyw bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, cyfeiriwch at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) am ragor o wybodaeth [Equality Act 2010: guidance - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk) a chanllawiau'r EHRC [The Essential Guide to the Public Sector Equality Duty: EHRC](http://www.ehrc.org.uk)

Amlinellwch yn gryno isod a fydd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i'r cynnig sy'n cael ei ystyried.

Nodweddion gwarchodedig	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig?	Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth neu farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.
Oedran (<i>pobl o bob oed</i>)	Bydd	Na fydd	Ysgol Pob Oed yw'r ysgol sy'n golygu bod nifer o gampysau yn Abertyleri, tri champws cynradd ac un uwchradd. Derbynnir disgyblion i'r ysgol pan ydynt yn 3 oed a gallant ddal i fynychu nes eu bod yn 16 oed. Mae lleihau'r capasiti yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri'n cynnig y potensial i wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion
Anabledd (<i>pobl ag anableddau/cyflyrau hirdymor</i>)	Bydd	Na fydd	Bydd newidiadau i'r Ysgol Pob Oed yn fach iawn i blant ag anableddau. Mae'r holl adeiladau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd gyda mynediad ym mhob adeilad at bob llawr. Yn achos disgyblion mewn canolfannau adnoddau ni fydd unrhyw beth yn newid iddynt hwy o ganlyniad i'r cynnig hwn.
Ailbennu Rhywedd (<i>unrhyw un y mae ei hunaniaeth o ran rhywedd neu ei fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a</i>	Na fydd	Na fydd	

<i>roddwyd iddynt adeg eu geni)</i>			
Priodas neu Bartneriaeth Sifil (<i>pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil</i>)	Na fydd	Na fydd	
Beichiogrwydd a Mamolaeth (<i>menywod sy'n feichiog a/neu ar absenoldeb mamolaeth</i>)	Na fydd	Na fydd	
Hil (<i>pobl o gymunedau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a gwahanol gefndiroedd hiliol</i>)	Na fydd	Na fydd	
Crefydd neu Gred (<i>pobl â gwahanol grefyddau a chredoau gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau</i>)	Na fydd	Na fydd	
Rhyw (<i>menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n hunan-nodi eu rhyw</i>)	Na fydd	Na fydd	
Cyfeiriadedd Rhywiol (<i>lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall</i>)	Na fydd	Na fydd	

SYLWCH: Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen cwblhau Adran 2. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Adran 2

Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

Mae [Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith er mwyn sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar flaen y gad wrth wneud penderfyniadau.

Ystyriwch y grwpiau bregus isod ac ystyriwch sut y gallai'r cynnig effeithio arnynt:

- | | | |
|------------------------------------|-------------------------------------|---|
| ➤ Rhieni sengl a theuluoedd bregus | ➤ Gofalwyr | ➤ Pobl sydd wedi profi'r system lloches |
| ➤ Pobl â llythrennedd/rhifedd isel | ➤ Cymuned y Lluoedd Arfog | ➤ Pobl o bob oed yn gadael lleoliad gofal |
| ➤ Pensiynwyr | ➤ Myfyrwyr | ➤ Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALIC) |
| ➤ Plant sy'n derbyn gofal | ➤ Aelwydydd sengl i oedolion | ➤ Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |
| ➤ Pobl ddigartref | ➤ Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau | |

Diffiniadau anfantais economaidd-gymdeithasol	A fydd y cynnig yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar yr isod?	Sut allech chi liniaru'r effeithiau negyddol a amlinellwyd	Amlygwch unrhyw dystiolaeth sydd wedi cael ei hystyried.
Incwm Isel/Tlodi Incwm (<i>yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, cludiant ac ati</i>)	Niwtral		

Isel a/neu Dim Cyfoeth (<i>digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw arbedion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol</i>)	Niwtral		
Amddifadedd Materol (<i>methu cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio/amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobiau ac ati</i>)	Niwtral		
Ardal Amddifadedd (<i>Ile rydych yn byw (ardaloedd gwledig), lle rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus) Effaith ar yr amgylchedd?</i>)	Niwtral		
Cefndir Economaidd-gymdeithasol (<i>dosbarth cymdeithasol h.y. addysg rhieni, cyflogaeth ac incwm</i>)	Niwtral		
Anfantais Economaidd-gymdeithasol (<i>Pa effaith gronnol fydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu fregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais</i>)	Niwtral		

Adran 3 - Cynllun Corfforaethol

Amlinellwch unrhyw gysylltiadau sydd gan y Cynllun Corfforaethol â'r cynnig – [Cynllun Corfforaethol BG 22-27](#)

Blaenoriaeth 1 - Cynyddu dysgu a sgiliau i'r eithaf ar gyfer pawb i greu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chydnerth

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn yr adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn ymrwymedig i'r canlynol

- Ansawdd dysgu gwell: Gall lleihau capasiti helpu i sicrhau bod niferoedd y dysgwyr yn cyd-fynd â staffio a chyfleusterau, gan gefnogi dysgu ac addysgu mwy effeithiol.
- Cymorth wedi'i dargedu: Gall carfannau llai ei gwneud yn bosibl rhoi mwy o ffocws ar ddysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan helpu i leihau bylchau cyrhaeddiad.
- Darpariaeth gynaliadwy: Mae addasu capasiti yn unol â'r galw'n cefnogi hyfywedd darpariaeth addysg yn y tymor hir, gan leihau'r risg o darfu yn y dyfodol ar gyfer dysgwyr.
- Datblygiad sgiliau gwell: Gall canolbwyntio adnoddau wella'r modd y darperir y cwricwlwm, llwybrau sgiliau, a pharatoad ar gyfer cyflogaeth neu addysg bellach.

Mae'r adran yn defnyddio amryw fethodolegau ymgysylltu er mwyn deall a yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r deilliannau bwriadedig ynteu a oes angen ystyried newidiadau i'r modd y darperir y gwasanaeth.

Blaenoriaeth 2 - Ymateb i'r argyfwng natur a newid hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig

Trwy leihau lleoedd cynradd, cydnabyddir y bydd ôl troed yr adeiladau ar draws y Gymuned Ddysgu'n cael ei leihau.

- Defnydd mwy effeithlon o adeiladau: Mae lleihau lleoedd gwag yn gallu lleihau'r defnydd o ynni, gwres, a gofynion cynnal a chadw, gan gyfrannu at leihau carbon.
- Ôl troed amgylcheddol llai: Mae lle a ddefnyddir yn well o gymorth i reoli asedau'n fwy cynaliadwy.
- Cyfle ar gyfer cynllunio cynaliadwy: Gall lleihau capasiti gefnogi adolygiad strategol o gludiant, amserlennu, a modelau dysgu hybrid i leihau allyriadau.

	Defnydd cymunedol â ffocws: Gall rheoli capasiti alluogi'r gymuned i ddefnyddio'r cyfleusterau mewn modd mwy trefnus a phwrrpasol.
Blaenoriaeth 3 - Cyngor uchelgeisiol a blaengar yn darparu gwasanaethau ansawdd da ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir	Mae ymgysylltu effeithiol yn hollbwysig i sicrhau bod y Cyngor yn rhedeg yn effeithiol, bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu defnyddio. • Darparu gwasanaethau'n effeithlon: Mae sicrhau bod capasiti a'r galw'n cyd-fynd â'i gilydd yn sicrhau bod gwasanaethau addysg yn cael eu darparu ble a phan ydynt fwyaf effeithiol. • Gwerth am arian: Mae lleihau capasiti nas defnyddir ddigon yn cefnogi trefniadau rheoli ariannol cryfach ac o gymorth i ailfuddsoddi mewn gwasanaethau rheng-flaen. • Rhoi anogaeth i arloesi: Gall adolygu capasiti weithredu fel sbardun ar gyfer trawsnewid ehangach, gan gynnwys dysgu digidol, darpariaeth allgymorth, a gweithio ar draws gwasanaethau. Cynllunio gwell: Mae o gymorth i gynllunio'r gweithlu, asedau, a'r cwricwlwm yn fwy cadarn.
Blaenoriaeth 4 - Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a chydnerth	Mae Cyngor Blaenau Gwent, ynghyd â'i gyd-awdurdodau lleol ledled Gwent, wedi gweithio gydag ysgolion, nid dim ond i herio hiliaeth a throseddau casineb, ond hefyd i hybu cynhwysiant a dathlu amrywiaeth y rhanbarth. • Cymorth cryfach gyda lles: Gall carfannau llai gefnogi gofal bugeiliol, trefniadau diogelu, a llesiant emosiynol gwell. • Gwasanaethau cydnerth: Mae darpariaeth addysg gynaliadwy'n cyfrannu at gymunedau sefydlog ac annibyniaeth hirdymor. • Ymgysylltu cymunedol a dargedir: Gall rheoli capasiti alluogi ymgysylltiad â ffocws mwy pendant â theuluoedd a grwpiau cymunedol. • Cymorth i ddysgwyr agored i niwed: Gall cynllunio capasiti'n effeithiol wella mynediad at wasanaethau cymorth sy'n helpu dysgwyr a theuluoedd i barhau i fod yn gydnerth.

Adran 4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio (ICLIP)

Egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)

Pum Ffordd o Weithio	Sut ydych chi wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?
Hirdymor 	Ystyried effaith hirdymor y cynnig ar allu cymunedau i sicrhau eu llesiant. Mae'r cynnig wedi'i fwriadu i leihau capasiti campysau cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri fel bod un campws yn llai, a fydd yn sicrhau dyfodol i ddysgwyr yn yr ardal yn Abertyleri ac yn gwneud y ddarpariaeth addysg yn fwy cynaliadwy. Bydd y cynnig yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r galw sy'n realistig yn seiliedig ar newidiadau demograffig, yn diogelu ansawdd addysgol ar gyfer carfannau'r dyfodol ac yn sicrhau bod y sefydliad yn dal i fod yn hyfyw dros y tymor hir.
Atal 	Ystyried sut mae'r cynnig yn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r cynnig wedi'i fwriadu i ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r disgyblion cywir yn y lleoliad cywir gan adweithio i anghenion yr Ysgol Pob Oed. Mae lleihau capasiti mewn modd wedi'i gynllunio'n galluogi trefniadau rheoli ariannol rhagweithiol, dan reolaeth, gan osgoi methiannau sydyn yn y gwasanaeth neu benderfyniadau adweithiol yn ddiweddarach. Trwy gyfnerthu'r ddarpariaeth cyn bod safonau neu gymorth yn gwaethygu, gall y Gymuned Ddysgu gynnal ansawdd yn hytrach na gadael i ddirywiad graddol ddechrau. Mae lleihau capasiti mewn modd wedi'i gynllunio'n galluogi'r ddarpariaeth addysg i addasu'n raddol ac yn gyfrifol i anghenion newidiol, gan gyd-fynd â'r egwyddor polisi yng Nghymru o ran meddwl am yr hirdymor
Integreiddio 	Ystyried sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar wasanaethau eraill a ddarperir yn ein cymunedau (gallai'r rhain fod yn wasanaethau'r Cyngor neu'n wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill). Mae'n bwysig bod disgyblion sy'n rhan o'r Ysgol yn cael y cyfleoedd i integreiddio a chofleidio'r dull Ysgol Pob Oed, gan y bydd hyn yn galluogi disgyblion i gael y profiad i'w helpu i fyw bywyd annibynnol / lled annibynnol, gyda chymorth cydweithio mewn grwpiau. Gall ôl troed ysgol â ffocws mwy pendant wella sut y mae gwasanaethau iechyd yn ymgysylltu â phlant, teuluoedd a chymunedau. Mae ysgolion yn bartner allweddol i ofal cymdeithasol lle mae ymyrryd yn gynnar yn y cwestiwn. Gall cyfuno gryfhau'r rôl hon. Gall nifer lai o gampysau ag adnoddau da ddod yn ganolbwyntiau mwy eglur ar gyfer gwasanaethau ieuencid a mudiadau'r trydydd sector

Cydweithio 	Ystyried sut yr ydych yn gweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor neu wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau neu grwpiau eraill yn ein cymunedau. Mae'r tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg, ar y cyd â'r Ysgol, wedi cydweithio i sicrhau bod disgyblion yn cael y ddarpariaeth y mae ei hangen arnynt i ffynnu. Rhoddir ystyriaeth i ôl troed â ffocws mwy pendant ar gyfer y Gymuned Ddysgu sy'n galluogi cydweithio agosach, mwy effeithiol gyda gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, megis Addysg a Chynhwysiant, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Ieuencid a gwasanaethau Seilwaith.
Cynnwys 	Ystyried sut yr ydych yn cynnwys pobl sydd â diddordeb yn y cynnig hwn a sicrhau eu bod yn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau. Bydd yr holl bartïon â buddiant yn ymgynghoreion yn y cynnig hwn ac yn cael y cyfle i ymateb trwy'r broses gyfathrebu os caiff ei gymeradwyo.

Sut mae eich cynnig yn cysylltu â Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru? Nodwch isod.

1. **CYMRU LEWYRCHUS** ... cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Mae gostwng lleoedd gwag yn galluogi'r Gymuned Ddysgu a'r Cyngor i ddefnyddio adnoddau cyhoeddus yn fwy effeithlon, gan gyfeirio cyllid i ffwrdd oddi wrth gyfleusterau nas defnyddir ddigon a thuag at wasanaethau rheng-flaen megis:

- Ansawdd dysgu ac addysgu
- Cymorth ar gyfer lles ac ADY
- Datblygu sgiliau a chyrhaeddiad

Mae addysg yn un o'r ffactorau canolog sy'n dylanwadu ar lewyrch yng Nghymru. Dengys tystiolaeth fod cysylltiad cryf rhwng deilliannau addysgol ac enillion gydol oes uwch, cyfraddau cyflogaeth uwch a mwy o gyfranogiad economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd hanesyddol megis Blaenau Gwent.

2. **CYMRU GYDNERTH** ... cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol ag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). Meddyliwch sut y bydd eich gweithgaredd yn ystyried gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid

Mae model campysau cyfunol yn ategu cydnerthedd trwy:

- Leihau'r ddibyniaeth ar adeiladau aneffeithlon sy'n heneiddio
- Lleihau pwysau amgylcheddol ac o ran cynnal a chadw
- Ategu defnydd o dir ac ynni sy'n fwy cynaliadwy ac a gynllunnir yn well

Mae polisi Llywodraeth Cymru'n pwysleisio pwysigrwydd asedau a seilwaith cyhoeddus cydnerth i ategu cynaliadwyedd cymunedol hirdymor.

3. **CYMRU IACHACH** ... cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl mor uchel â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol

Mae gan ysgolion rôl ataliol hollbwysig mewn iechyd a llesiant. Mae lleihau capasiti'n ei gwneud yn bosibl canolbwyntio adnoddau ar:

- Ofal bugeiliol a llesiant emosiynol
- Ymyriadau cynnar ar gyfer iechyd meddwl
- Diogelu a chymorth gyda phresenoldeb
- Bwyd, gweithgarwch corfforol a gorchwylion iach

Dengys ymchwil yng Nghymru fod ysgolion yn arbennig o effeithiol am wella deilliannau iechyd i blant a phobl ifanc, yn enwedig trwy ddulliau ataliol.

4. **CYMRU SY’N FWY CYFARTAL ...** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Mae'r Gymuned Ddysgu'n gwasanaethu ardal ag amddifadedd a chymhwysra ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim sy'n uwch na'r cyfartaledd. Mae lleihau capasiti'n cefnogi cydraddoldeb trwy:

- Dargedu adnoddau ble mae eu hangen fwyaf
- Cryfhau darpariaeth PYADd a chymorth gyda llesiant
- Gwella cysondeb y cymorth i ddysgwyr agored i niwed

Dengys ymchwil yng Nghymru fod ysgolion yn fecanwaith allweddol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd ac addysgol, yn enwedig i blant difreintiedig.

5. **CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS ...** cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.

Mae lleihau capasiti'n galluogi'r Gymuned Ddysgu i ganolbwyntio adnoddau ar lai o safleoedd a'r rheiny'n safleoedd y darperir adnoddau'n well ar eu cyfer, gan helpu'r campws/campysau a fydd yn weddill i weithredu'n fwy effeithiol fel sefydliadau angori cymunedol. Cydnabyddir yn eang bod ysgolion yng Nghymru'n ganolog i gydlyniant cymunedol, gan ddarparu mannau gweladwy, yr ymddiriedir ynddynt sy'n cefnogi dysgu, llesiant a chysylltiadau cymdeithasol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

Mae'r dull hwn yn cefnogi cymunedau cydlynus trwy:

- Gynnal hyb lleol cryf, adnabyddadwy
- Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ymgysylltu cymunedol
- Atgyfnerthu rôl yr ysgol fel ased cymunedol a rennir

6. **CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU ...** cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

Mae lleihau capasiti'n galluogi'r Gymuned Ddysgu i ganolbwyntio gweithgarwch diwylliannol, creadigol a chyfoethogi mewn llai o fannau a'r rheiny'n fannau y darperir adnoddau'n well ar eu cyfer. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer:

- Cerddoriaeth, drama a pherfformio
- Y celfyddydau gweledol a mynegiant creadigol
- Chwaraeon a diwylliant corfforol

yn dal i fod o ansawdd da, yn weladwy ac yn gynaliadwy yn hytrach na'u bod wedi'u gwanhau trwy fod wedi'u gwasgaru ar draws nifer o safleoedd.

Mae'r dull cydgyfeiriedig hwn yn ategu profiadau diwylliannol bywiog i ddysgwyr a'r gymuned ehangach, gan helpu i sicrhau bod diwylliant yn dal i fod yn fyw, yn dal i gael ei rannu ac yn dal i gael ei werthfawrogi.

7. CYMRU SY'N GYFRIFOL YN FYD-EANG ... Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

Mae lleihau capasiti'n ategu cyfrifoldeb byd-eang trwy hybu defnydd effeithlon a chymesur o adnoddau cyhoeddus. Mae cynnal a chadw adeiladau â lleoedd gwag neu nas defnyddir ddigon yn cynyddu defnydd o ynni, y galw am waith cynnal a chadw, a defnydd o ddeunyddiau. Mae ôl troed mwy cynaliadwy'n ei gwneud yn bosibl cyfeirio adnoddau lle gallant ddwyn y budd addysgol a chymdeithasol mwyaf.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu disgwyliad Llywodraeth Cymru bod gwasanaethau cyhoeddus yn rheoli asedau'n gyfrifol, gan gydnabod eu heffeithiau amgylcheddol ac economaidd ehangach y tu hwnt i ffiniau lleol.

Safonau Adran 5 - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg <i>(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai unrhyw gynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Safonau'r Gymraeg)</i>			
Gofyniad	A oes gan y cynnig unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral o ran yr isod?	Beth ellir ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	Dangoswch unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ffurfio'r farn hon.
Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. <i>Safonau 88 - 93 yn benodol</i>	Niwtral		Nid yw'r cynnig yn lleihau gallu, yn cyfyngu ar allu nac yn cael gwared ar allu'r Cyngor na'r Gymuned Ddysgu i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
Pa gyfleoedd sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg? e.e. statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn y gwaith/cymuned	Cadarnhaol		Mae gan y cynnig y potensial i gryfhau cydymffurfiaeth ac ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg: Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith yn fwy cyson ar draws nifer lai o safleoedd, gan

			leihau amrywioldeb mewn ymarfer.
Pa gyfleoedd sydd ar gael i berson neu bersonau ddefnyddio'r Gymraeg? e.e. staff, preswylwyr ac ymwelwyr	Cadarnhaol		• Cydweithio gwell rhwng staff a datblygiad proffesiynol gwell ar eu cyfer, gan ategu hyder uwch yn y Gymraeg a mwy o gysondeb wrth ddefnyddio'r iaith. • Goruchwyliaeth fwy eglur gan arweinwyr ar ddyletswyddau o ran y Gymraeg, gan ei gwneud yn haws cynnal gwaith monitro, sicrwydd ansawdd a chydymffurfiaeth. • Gwreiddio'r Gymraeg yn gryfach ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd, yn hytrach na gwasgariad ar draws nifer o leoliadau â chapasiti amrywiol. • Ffocws gwell ar ddilyniant a pharhad o ran dysgu Cymraeg i ddysgwyr.
A yw'r Gymraeg wedi'i hystyried er mwyn peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Niwtral	Niwtral	Bydd yr ysgol yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn y cwricwlwm lle y bo'n briodol.

Adran 6 – Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant – [Y Ffordd Gywir](#)

Mae'r Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant – Y Ffordd Gywir yn fframwaith ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i seilio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'n gosod CCUHP wrth wraidd cynllunio a darparu gwasanaethau ac yn integreiddio hawliau plant i bob agwedd ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer. Mae Y Ffordd Gywir yn canolbwyntio ar dri phrif thema, sef Cyfranogiad, Darpariaeth ac Amddiffyn.

Nodweddion gwarchodedig	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant?	Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.
Cyfranogiad (plentyn neu berson ifanc fel rhywun sy'n cyfrannu'n weithredol at gymdeithas fel dinesydd)	Bydd	Na fydd	Mae strwythur ysgol mwy cyfunol yn galluogi staff i: • Feithrin perthnasoedd cryfach â dysgwyr • Rhoi adborth gwell ar sut y mae barn disgyblion yn dylanwadu ar benderfyniadau • Sicrhau bod cyfranogiad yn ystyrlon yn hytrach nag yn docynistaidd
Darpariaeth (hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu)	Bydd	Na fydd	Mae lleihau capasiti'n galluogi'r Gymuned Ddysgu i ganolbwyntio adnoddau a chymorth, gan wella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, gan gynnwys: • Dysgu ac addysgu • Cymorth gyda lles a chymorth emosiynol • Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) • Gwasanaethau bugeiliol a chynhwysiant Mae hyn yn ategu hawl plant i: • Addysg o ansawdd da

			• Cymorth i wireddu eu potensial corfforol, emosiynol a datblygiadol i'r eithaf • Darpariaeth sy'n adlewyrchu eu budd pennaf fel prif ystyriaeth
Amddiffyn (mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio, cam-drin neu wahaniaethu)	Niwtral	Na fydd	Er bod yr effaith yn niwtral Gall ôl troed mwy cynaliadwy a hydrin ar gyfer yr ysgol gryfhau diogelu ac amddiffyn trwy: • Wella goruchwyliaeth a pharhad staff • Bod o gymorth i roi polisiau diogelu ar waith yn fwy cyson • Ei gwneud yn bosibl adnabod pryderon ynghylch lles ar adeg gynnar • Cryfhau gwaith mewn partneriaeth gydag asiantaethau gofal cymdeithasol, iechyd a diogelu Mae'r ffactorau hyn yn gwella gallu'r system i amddiffyn plant rhag niwed, cefnogi ymyriadau cynnar, a sicrhau bod lles plant yn dal i fod yn ganolog i brosesau penderfynu.

Adran 7 – Diogelwch Cymunedol

Dyletswydd i Ystyried Goblygiadau Trosedd ac Anhrefn

Mae Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd, a'r angen i wneud popeth o fewn ei allu i atal trosedd ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol, camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill, aildrosedd a thrais difrifol.

Effeithiau	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar drosedd ac anhrefn?	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar drosedd ac anhrefn?	Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.
Trosedd (ystyried yr effaith ar bob un: dioddefwyr, troseddwyr a chymdogaethau)	Na fydd	Na fydd	Mae'r cynnig i leihau capasiti trwy gau campws wedi cael ei ystyried o ran diogelwch cymunedol, gan gynnwys canfyddiadau am ddiogelwch, diogelu, atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth. Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw effeithiau niweidiol ar ddiogelwch cymunedol ac mae'n amlygu cyfleoedd i gryfhau trefniadau ataliol ac amddiffynnol.
Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol (ystyriwch yr effaith ar bob un: dioddefwyr,	Na fydd	Na fydd	Fel uchod

troseddwyr, cymdogaethau a mannau gwyrdd)			
Camddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill (Meddylwch am blant, oedolion, teuluoedd a chymunedau agored i niwed)	Na fydd	Na fydd	Fel uchod
Aildroseddu (Meddylwch am bobl ifanc ac oedolion, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau)	Na fydd	Na fydd	Fel uchod
Trais Difrifol (Meddylwch am bobl ifanc agored i niwed, oedolion agored i niwed, dioddefwyr, teuluoedd, cymunedau)	Na fydd	Na fydd	Fel uchod
Gwrthderfysgaeth (Pobl a lleoedd sy'n agored i derfysgaeth neu eithafiaeth dreisgar)	Na fydd	Na fydd	Fel uchod
Cydllynant Cymunedol (Ceiswyr lloches, Ymfudwyr, Dioddefwyr neu Droseddau Casineb, tensiynau cymunedol)	Na fydd	Na fydd	Fel uchod

Adran 8 – Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog [Canllawiau Statudol Drafft AFC - Final.pdf](#)

Effeithiau	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar gymuned y lluoedd arfog?	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar gymuned y lluoedd arfog?	Amlinellwch sut y gallai'r cynnig wneud y mwyaf o unrhyw effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effaith negyddol. Nodwch unrhyw dystiolaeth o farn sydd gennych sy'n cefnogi hyn.
Iechyd • Darparu gwasanaethau • Cynllunio ac ariannu • Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol Mae'r swyddogaethau gofal iechyd hyn o fewn cwrdd y Dyletswydd yn y lleoliadau canlynol: • Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y GIG, gan gynnwys practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, gwasanaethau deintyddol y GIG, gwasanaethau optometreg y GIG a gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd. • Gwasanaethau Gofal Eilaidd y GIG, gan gynnwys gofal brys, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gofal arbenigol, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau anghenion	Na fydd	Na fydd	

ychwanegol (fel y bo'n berthnasol). Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol			
Addysg • Derbyniadau • Cyrhaeddiad addysgol a chwricwlwm • Lles plant • Cludiant • Presenoldeb • Cymorth anghenion ychwanegol • Defnyddio cyllid Gwasanaeth Premiwm Disgybl (Lloegr yn unig) Mae'r swyddogaethau addysg hyn o fewn cwrdd y Ddyletswydd mewn lleoliadau addysg orfodol, hynny yw, addysg gynradd, uwchradd, ac, ar gyfer Lloegr yn unig, addysg bellach orfodol. Nid yw'r Ddyletswydd yn cynnwys lleoliadau meithrin (addysg blynyddoedd cynnar), addysg uwch, na lleoliadau addysg oedolion gwirfoddol eraill	Na fydd	Na fydd	
Tai • Polisi dyrannu tai cymdeithasol • Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig) • Digartrefedd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Na fydd	Na fydd	

Adran 9 - Data - Amlinellwch unrhyw ddata neu dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig, gall hyn fod yn ymgynghoriadau blaenorol, data lleol/cenedlaethol, prosiectau peilot, adroddiadau, adborth gan gleientiaid ac ati.

Data/tystiolaeth – Pa ddata/tystiolaeth a ddefnyddiwyd? - darparwch unrhyw ddolenni.	Beth oedd y canfyddiadau allweddol?	Sut mae’r data/tystiolaeth wedi llywio’r cynnig hwn?
--	-------------------------------------	--

Abertillery Learning Community Pupil Placement last 5 years Primary and Secondary Trend and the next 5 years Projections (based on numbers on roll data.) <table><tr><th rowspan="3">Abertillery 3-16 Learning Community</th><th colspan="10">Capacity and Numbers on Roll</th></tr><tr><th colspan="2">2020/21</th><th colspan="2">2021/22</th><th colspan="2">2022/23</th><th colspan="2">2023/24</th><th colspan="2">2024/25</th><th colspan="2">2025/26</th></tr><tr><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th><th>School Capacity</th><th>Numbers on Roll</th></tr><tr><td>Primary</td><td>980</td><td>637</td><td>980</td><td>747</td><td>980</td><td>702</td><td>980</td><td>685</td><td>980</td><td>672</td><td>980</td><td>615</td></tr><tr><td>Secondary</td><td>750</td><td>654</td><td>750</td><td>705</td><td>750</td><td>699</td><td>750</td><td>720</td><td>750</td><td>702</td><td>750</td><td>722</td></tr></table> The learning community has retained their capacity limit for the last 5 years however in 2025 it can be seen that at the primary campuses there is around 365 (37.2 %) surplus places. Amcanestyniadau Disgyblion ar gyfer lleoedd Cynradd ac Uwchradd dros y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar y Duedd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri. <table><tr><th rowspan="2">Cymuned Abertyleri</th><th rowspan="4">Ddysgu 3-16</th><th colspan="6">Amcanestyniad yn seiliedig ar y Duedd dros bum mlynedd ar sail niferoedd ar y gofrestr</th></tr><tr><th>2026/27</th><th>2027/28</th><th>2028/29</th><th>2029/30</th><th>2030/31</th><th>2031/32</th></tr><tr><td colspan="2">Campysau cynradd</td><td>725</td><td>691</td><td>661</td><td>667</td><td>628</td><td>620</td></tr><tr><td colspan="2">Campws uwchradd</td><td>714</td><td>679</td><td>670</td><td>688</td><td>664</td><td>652</td></tr></table> Mae'r tabl uchod yn dangos gostyngiad pellach yn niferoedd y disgyblion, gan greu lleoedd gwag ychwanegol ar gyfer ffigyrau'r campysau cynradd a'r campws uwchradd.	Abertillery 3-16 Learning Community	Capacity and Numbers on Roll										2020/21		2021/22		2022/23		2023/24		2024/25		2025/26		School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	Primary	980	637	980	747	980	702	980	685	980	672	980	615	Secondary	750	654	750	705	750	699	750	720	750	702	750	722	Cymuned Abertyleri	Ddysgu 3-16	Amcanestyniad yn seiliedig ar y Duedd dros bum mlynedd ar sail niferoedd ar y gofrestr						2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32	Campysau cynradd		725	691	661	667	628	620	Campws uwchradd		714	679	670	688	664	652	Roedd y canfyddiadau allweddol yn nodi lleihad cyson yn niferoedd y disgyblion yn y Cyfnod Cynradd.	Mae’r data’n rhoi cyfiawnhad i ymgynghori ynghylch lleihau capasiti’r ysgol.
Abertillery 3-16 Learning Community		Capacity and Numbers on Roll																																																																																											
		2020/21		2021/22		2022/23		2023/24		2024/25		2025/26																																																																																	
	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll	School Capacity	Numbers on Roll																																																																																	
Primary	980	637	980	747	980	702	980	685	980	672	980	615																																																																																	
Secondary	750	654	750	705	750	699	750	720	750	702	750	722																																																																																	
Cymuned Abertyleri	Ddysgu 3-16	Amcanestyniad yn seiliedig ar y Duedd dros bum mlynedd ar sail niferoedd ar y gofrestr																																																																																											
		2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32																																																																																						
Campysau cynradd		725	691	661	667	628	620																																																																																						
Campws uwchradd		714	679	670	688	664	652																																																																																						

A oes unrhyw fylchau mewn data neu wybodaeth ac os felly, beth ydynt a sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â hwy?

Amherthnasol

Adran 10 - Ymgynghori. Darparwch fanylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i gefnogi'r cynnig. Ystyriwch yr Egwyddorion Gunning:

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fydd y cynigion yn dal mewn cyfnod ffurfiannol. Mae'n rhaid nad ydych eisoes wedi gwneud eich meddwl i fyny.

Egwyddor 2: Rhaid rhoi rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. A yw pobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?

Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?

Egwyddor 4: Rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth wneud y penderfyniad terfynol

Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgynghoriadau sydd wedi'u cynllunio neu ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal hyd yma. Ystyriwch yr egwyddorion uchod.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

1. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Byddir yn ymgynghori'n ffurfiol â'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn casglu eu barn. Mae rhestr yr ymgynghoreion yn cydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2018 Fersiwn 2

2. Pryd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ac a roddwyd digon o amser ar gyfer ymateb?

- Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau, os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet, ar ddydd Llun 2 Mawrth 2026, gan ddod i ben ar ddydd Sul 12 Ebrill 2026 (mae hyn yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion uchod a'i gyfnod ymgynghori ffurfiol o 42 diwrnod)
- Unwaith y bydd wedi dod i ben bydd Adroddiad Alldro'n cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cabinet i gael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â Chyfnod yr Hysbysiad Statudol a fydd hefyd yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (28 diwrnod a'r diwrnod y'i cyhoeddwyd)
- Unwaith y bydd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol wedi dod i ben bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau ffurfiol yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Cabinet
- Os bydd y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i roi'r cynnig ar waith bydd ymateb Hysbysu Ynghylch y Penderfyniad yn cael ei lunio a'i anfon o amgylch i hysbysu'r ymgynghoreion ynghylch penderfyniad i roi'r cynnig ar waith.

3. A ddarparwyd digon o wybodaeth i ymateb yn effeithiol?

Fe grëwyd dogfen ymgynghori lawn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion uchod, sy'n amodi pa wybodaeth y mae angen ei chynnwys, ac mae gan y Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg Sesiynau Galw Heibio wedi'u hamserlennu hefyd fel a nodir isod,

Lleoliad	Dyddiad	Amser(oedd)	Sesiwn wedi'i bwriadu ar gyfer:
----------	---------	-------------	---------------------------------

CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL	Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026	3:30pm – 4:30pm	Staff	
CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL	Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026	5:00pm – 6:00pm	Corff Llywodraethu	
Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA	Dydd Mercher 11 Mawrth 2026	3:00pm – 6:30pm	Rhieni a'r Gymuned Ehangach	
Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA	Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026	3:00pm – 6:30pm	Rhieni a'r Gymuned Ehangach	
Cyfarfod rhithwir ar Teams	Dydd Mercher 17 Mawrth 2026	1:00pm - 2:00pm	Cynrychiolwyr Undebau Llafur	

Bydd y Cyngor yn cynnal digwyddiadau ar wahân gyda'r Plant a'r Bobl Ifanc trwy'r Cyngor Ysgol, Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent a'r Uwch-Gyngor Ysgolion os bydd cyfarfodydd wedi'u trefnu yng nghyfnod yr ymgynghoriad.

4. Beth oedd y canfyddiadau?

Amherthnasol

5. A yw'r canfyddiadau wedi'u hystyried mewn perthynas â'r penderfyniad?

Amherthnasol

Adran 11 - Monitro ac Adolygu	
Sut bydd gweithrediad y cynnig yn cael ei fonitro, gan gynnwys yr effeithiau neu'r newidiadau a wnaed?	Bydd y tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn rhoi cymorth gyda'r agweddau trawsnewid ar gapasiti'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd y tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg – Gweithrediadau yn parhau i fonitro'r gydberthynas rhwng y broses dderbyn a chapasiti diwygiedig yr ysgol. Adroddiadau blynyddol i Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth, y Tîm Arwain Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet.
Pa offer monitro fydd yn cael eu defnyddio?	Y broses dderbyn a dadansoddiadau data fydd yn pennu datblygiad polisi yn y dyfodol. Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn defnyddio Methodoleg Prince 2 i gefnogi unrhyw brosiect a roddir ar waith. Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg – Gweithrediadau yn monitro, cynllunio a rhagfynegi sefyllfa'r Gymuned Ddysgu o ran derbyniadau a chapasiti.
Sut bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio ar gyfer datblygiad yn y dyfodol?	Mae adroddiadau blynyddol, Cynllunio Lleoedd Ysgol mewn Addysg Brif Ffrwd yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan Swyddog Cyfleusterau'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg.
Sut a phryd y caiff ei adolygu?	Mae Capasitiâu Ysgolion yn cael eu hadolygu'n flynyddol.
Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?	Emma Jones – Adnoddau a Chynllunio – Swyddog Arweiniol (Gweithrediadau)

Adran 12 - Penderfyniad		
<i>Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu o adrannau 1-9, nodwch yn y tabl isod a allwch fwrw ymlaen â'r cynnig.</i>		
Parhau gyda'r cynnig yn ei ffurf bresennol	Ie / ☐	Nage ☐
Parhau gyda'r cynnig ond cymryd i ystyriaeth gamau rhesymol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol y cynnig	Ie / ☐	Nage ☐

Enw'r person sy'n cwblhau'r AEI	
Enw:	Jon Mower/Sharon Rowlands
Teitl y swydd:	Swyddogion Prosiect y Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg
Dyddiad:	27.2.26

Cymeradwyaeth Pennaeth Gwasanaeth			
Enw:	Joanne Watts		
Teitl y swydd:	Pennaeth y Tîm Adnoddau a Chynllunio		
Llofnod:		Dyddiad:	27.2.26

Cysylltwch â Polisi a Phartneriaethau os oes angen unrhyw gyngor neu arweiniad pellach arnoch ar gwblhau eich asesiad drwy lissa.friel@blaenau-gwent.gov.uk neu kate.james@blaenau-gwent.gov.uk